Gofal Cymdeithasol **Cymru**
Social Care **Wales**

Noddir gan **Lywodraeth Cymru**
Sponsored by **Welsh Government**

# Egwyddorion ymarfer

## Cydbwyso risgiau, hawliau a chyfrifoldebau ar gyfer oedolion: dull cadarnhaol o ymdrin â risgiau

ADSS Cymru
Yn arwain Gwasanaethau Cymdeithasol yng Nghymru
Leading Social Services in Wales

GIG Cymru NHS Wales
Addysg a Gwella Iechyd Cymru (AaGIC)
Health Education and Improvement Wales (HEIW)

Arolygiaeth Gofal **Cymru**
Care Inspectorate **Wales**

## Manylion cyswllt

Gofal Cymdeithasol Cymru
South Gate House
Wood Street
Caerdydd
CF10 1EW

Ffôn: 0300 3033 444
Minicom: 029 2078 0680
E-bost: gwybodaeth@
gofalcymdeithasol.cymru

gofalcymdeithasol.cymru

Twitter: @GofCymdeithasol

© 2020 Gofal Cymdeithasol Cymru

Cedwir pob hawl. Ni chaniateir atgynhyrchu unrhyw ran o'r cyhoeddiad hwn, na'i storio mewn system adalw na'i drosglwyddo mewn unrhyw ffurf na thrwy unrhyw gyfrwng heb ganiatâd ysgrifenedig Gofal Cymdeithasol Cymru ymlaen llaw. Dylid anfon ymholiadau am atgynhyrchu y tu allan i'r cwmpas a ganiateir yn benodol gan y gyfraith at Brif Weithredwr Gofal Cymdeithasol Cymru yn y cyfeiriad a nodir uchod.

# Cyflwyniad

## Pam mae'r egwyddorion hyn wedi'u llunio?

Yn aml, mae ymarferwyr gofal cymdeithasol, iechyd a thai yn wynebu cyfyng-gyngor wrth geisio cydbwyso dymuniadau person a all fod angen gofal a chymorth, barn y teulu, yn ogystal â pholisïau'r sefydliad a'r fframwaith cyfreithiol. Mae asesu risgiau'n bwysig, ond dylai hyn ategu (peidio â rhwystro) beth sy'n bwysig i'r person. Dylai'r sgyrsiau a gynhelir rhwng ymarferwyr ac unigolion drafod eu cryfderau a'u dyheadau, nid yn unig yr heriau a wynebir ganddynt. Mae hyn yn golygu bydd yn werth cymryd ambell 'risg'.

Comisiynwyd Imogen Blood & Associates gan Ofal Cymdeithasol Cymru, i weithio mewn partneriaeth â Practice Solutions, i gyd-gynhyrchu'r egwyddorion hyn gyda'r cyhoedd a gweithwyr proffesiynol yn gynnar yn 2019. Bwriad yr egwyddorion yw hyrwyddo dull cadarnhaol o ymdrin â risgiau, a phennu'r hyn sy'n ddisgwyliedig o ymarferwyr pan ddaw hi'n fater o gydbwyso cyfrifoldebau, hawliau a risgiau ymddangosiadol.

Daw'r dyfyniadau a welir mewn llythrennau **trwm** o'r trafodaethau gyda'r cyhoedd a'r gweithwyr proffesiynol.

## Ar gyfer pwy y mae'r egwyddorion hyn?

Caiff yr egwyddorion hyn eu hanelu at:

- ymarferwyr gofal cymdeithasol a'u rheolwyr, pa un a ydynt yn gweithio i awdurdodau lleol, mewn timau integredig, neu ar gyfer sefydliadau darparu gofal neu gymorth
- ymarferwyr iechyd, yn enwedig o dimau integredig, a
- darparwyr tai, yn enwedig y rhai sy'n darparu tai â chymorth.

Bydd yr egwyddorion yn fan cyfeirio ar gyfer y rhai sy'n archwilio, rheoleiddio neu addysgu gweithluoedd sydd, neu a fydd, yn gweithio yn y sectorau hyn.

Er eu bod wedi'u hysgrifennu'n bennaf ar gyfer cynulleidfa broffesiynol, rydym wedi ceisio'u gwneud mor ddealladwy â phosibl i bobl nad ydynt yn weithwyr proffesiynol. Ein gobaith yw y byddant yn galluogi pobl sy'n defnyddio gwasanaethau gofal a chymorth, eu teuluoedd a'u cyfeillion, gwirfoddolwyr a phobl eraill sydd â diddordeb i ddeall yr hyn sy'n ddisgwyliedig o wasanaethau.

## Pryd y dylid defnyddio'r egwyddorion hyn?

Bydd yr egwyddorion hyn yn berthnasol i oedolion sy'n rhan o wneud penderfyniadau ar y cyd ynghylch gofal a chymorth, a diogelu. Os ydy asesiad yn penderfynu nad oes gan unigolyn y gallu i wneud penderfyniad penodol, bydd angen gwneud penderfyniad er budd y person un unol â pholisi galluedd a deddfwriaeth. Fodd bynnag, dylai ysbryd yr egwyddorion hyn fod yn berthnasol o hyd i'r brosesau asesu a gwneud penderfyniadau ar sail 'y budd gorau i'r person'.

## Yr egwyddorion

**1.** Dylai'r broses benderfynu gychwyn a gorffen gyda'r hyn sy'n bwysig i'r person.

**"Trafodwch obeithion a dyheadau'r person gydag ef."**

**"Siaradwch â'r person, ceisiwch ganfod beth y mae'n ei olygu, beth y mae risg yn ei olygu iddo, pam mae eisiau gwneud yr hyn y mae eisiau ei wneud: cofiwch gael y darlun cyflawn."**

**2.** Mae canlyniadau llwyddiannus wrth wneud penderfyniadau'n deillio o gyfathrebu 'dwy ffordd' da ar ffurf partneriaid cyfartal ['cyd-gynhyrchu']. Mae hyn yn cymryd amser, parch, ymddiriedaeth, gwrando, sgil, a gwaith paratoi priodol. Efallai hefyd y bydd angen gwneud addasiadau rhesymol, neu gael gwasanaeth eirioli annibynnol, er mwyn i bobl allu cymryd rhan yn y broses mewn modd ystyrlon.

**"Esboniwch bethau'n llawn."**

**"Gofynnwch i'r person sut mae'n dymuno cyfathrebu, pa un a yw eisiau rhywun gydag ef ac ati."**

**3.** Ni ddylai gwerthoedd, rhagfarnau na rhagfarn ddiarwybod yr ymaferwyr (er enghraifft, ar sail rhywedd, cyfeiriadedd rhywiol, crefydd ac ati), na systemau sefydliadol, gyfyngu ar fywydau pobl. Mae pob penderfyniad ynghylch risg yn unigryw, a bydd yn dibynnu ar amgylchiadau a dymuniadau'r unigolyn.

**"Peidiwch â rhagdybio!"**

**"Peidiwch â diystyru pobl ar sail oed neu amhariad!"**

**4.** Dylai pobl gael digon o wybodaeth am y penderfyniad y maen nhw'n ei wneud a digon o amser i ddewis beth sy'n iawn iddynt hwy. Dylai hyn gynnwys gwybodaeth berthnasol am eu hopsiynau, manteision ac anfanteision pob un, a'u hawliau a'u cyfrifoldebau.

**"Cynorthwywch y person er mwyn iddo allu meddwl trwy bethau a dod i benderfyniad ei hun."**

**5.** Mae dull cytbwys yn ystyried y risgiau o beidio â dilyn dull gweithredu arbennig, yn ogystal â'r risgiau o'i ddilyn, a'r effaith bosibl ar lesiant emosiynol, seicolegol a chymdeithasol yr unigolyn, yn ogystal â'r risg o niwed corfforol.

**"Ystyriwch y risgiau o beidio â gwneud pethau, o oramddiffyn."**

**"Cynorthwywch y person i feddwl sut mae'n teimlo – efallai ei fod yn nerfus, neu'n hapus."**

**6.** Dylai gobeithion a phryderon y person, y bobl y mae'n dymuno iddynt gael eu cynnwys (er enghraifft, teulu, cyfeillion ac ati) ac ymaferwyr eraill gael eu clywed, ond dylid cofio mai dymuniadau'r unigolyn sydd bwysicaf. Pan fo dull gweithredu'n debygol o gael effaith niweidiol ar eraill, dylid ystyried ffyrdd o leihau hyn. Hefyd, dylai ymarferwyr fod yn onest ynglŷn â'u pryderon eu hunain mewn perthynas â 'risgiau' – o ran y person, y teuluoedd, y sefydliadau a hwy eu hunain fel gweithwyr.

**"Rhowch gyfle i bobl siarad am eu gofidiau, eu pryderon a'u dymuniadau ar eu pen eu hunain."**

**"Er mwyn 'rheoli risg', mae angen i chi gytuno bod rhywbeth yn 'risg'."**

**7.** Mae gan bobl yr hawl i wneud eu penderfyniadau eu hunain, hyd yn oed pan fydd pobl eraill yn eu hystyried yn benderfyniadau 'annoeth'. Ni ddylai ymarferwyr ddefnyddio'u pŵer i'w stopio, na'u perswadio i beidio â bwrw ymlaen â'u penderfyniad. Dylid cynorthwyo'r person i bwyso a mesur yr wybodaeth a chynllunio sut bydd yn lleihau'r risgiau pan fo modd, a'r hyn y bydd yn ei wneud pe bai pethau'n mynd o chwith.

**"Ddylai ymarferwyr ddim 'gwneud penderfyniad ar ran y person, na pherswadio'r person i wneud neu beidio â gwneud rhywbeth'."**

**8.** Gall amgylchiadau person, ei ddewisiadau neu ei alluedd i wneud penderfyniad newid dros amser, ac fe all newid ei feddwl. Dylai'r cynlluniau fod yn ddigon hyblyg a dylai'r asesiadau risg gael eu hadolygu'n ddigon aml gyda'r person i wneud hyn yn bosib.

**"Holwch bobl am y cymorth y maen nhw ei angen, eu cryfderau, eu dewisiadau, a beth sy'n bwysig iddyn nhw – gall hyn newid."**

**9.** Dylai'r person, y rhai y mae'n dymuno iddynt gael eu cynnwys ac unrhyw ymarferwyr perthnasol weithio gyda'i gilydd i gynllunio'r camau nesaf. Gall hyn gynnwys gweithio trwy senarios gyda'i gilydd, cytuno ar rolau, a gwneud yn siŵr fod gan bawb yr wybodaeth a'r cymorth angenrheidiol i roi penderfyniad y person ar waith mor ddiogel ag y bo modd, tra'n rheoli eu pryderon eu hunain.

**"Chwiliwch am ffyrdd o leihau risgiau."**

**"Ewch trwy'r senarios gyda'r person."**

**10.** Os nad oes modd i berson gael gwireddu ei nodau a'i ddyheadau yn y dyfodol agos, meddyliwch yn greadigol am y camau a all ddod ag ef yn nes at eu cyflawni. Fe allai hyn gynnwys mentrau i feithrin ei alluedd meddyliol neu gorfforol, neu ffyrdd amgen o gyflawni canlyniadau tebyg.

**"Gadewch i bobl roi cynnig ar bethau a meithrin eu sgiliau."**

**"Chwiliwch am ddewisiadau amgen – byddwch yn greadigol."**

**11.** Dylid cynorthwyo pobl i wneud cynlluniau a phenderfyniadau (neu gytuno ar sut bydd penderfyniadau'n cael eu gwneud) yn y tymor hwy, pe bai eu galluedd yn dirywio.

**"Helpwch bobl i siarad gyda'r rhai sy'n eu cynorthwyo am yr hyn y dylid ei wneud pan na allan nhw benderfynu drostyn nhw eu hunain mwyach."**

**12.** Mae arweinwyr a rheolwyr yn gyfrifol am greu prosesau a diwylliant yn y gweithle i ategu asesiadau risg cytbwys. Eu rôl yw cefnogi barn yr ymarferwyr hynny sy'n adnabod y person a'r sefyllfa orau.

Dylai hyn gynnwys:

- myfyrio'n gyson mewn grŵp a fesul un ar yr hyn sydd o'r budd gorau i'r bobl (a'r dystiolaeth sy'n ategu hyn), beth sy'n bosibl, a sut dylid rheoli risgiau sefydliadol er mwyn ategu hyn
- llunio polisïau a phrosesau ar y cyd ar gyfer cydbwyso risgiau, hawliau a chyfrifoldebau gyda phobl sy'n defnyddio gwasanaethau gofal a chymorth, eu teuluoedd a darparwyr, er mwyn cynorthwyo diwylliant sy'n annog dull cadarnhaol o gymryd risgiau
- dysgu a gwella, ar sail yr hyn sydd wedi gweithio'n dda, yn ogystal â'r pethau nad ydynt wedi gweithio cystal. Mae angen i chi osgoi diwylliant o weld bai a chyflwyno cyfyngiadau cyffredinol pan aiff pethau o chwith
- lledaenu'r egwyddorion hyn a chael gwared â rhwystrau sefydliadol sy'n atal yr egwyddorion rhag cael eu rhoi ar waith
- deall yr effeithiau y gall prosesau rheoli risgiau eu cael ar fywyd person a'i lesiant.